

Mai 2015

Annwyl Bennaeth

Trefniant Gwirio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2015

Gwiriad allanol mathemateg a gwyddoniaeth – Haf 2015

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag ysgolion y tymor diwethaf mewn perthynas ag Asesiadau Athrawon, safoni a gwirio allanol (Atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder (12 Rhagfyr 14 - 6 Mawrth 2015)). O ganlyniad, bydd rhaglen genedlaethol yn cael ei chyflwyno'r haf hwn i ddarparu gwiriad allanol o fathemateg a gwyddoniaeth, gyda'r ffocws yn symud i'r Saesneg a'r Gymraeg yn yr haf 2016.

Rhodddwyd y contract i reoli'r broses wirio allan i dendro ac fe enillwyd gan bartneriaeth sy'n cynnwys y pedwar consortiwm rhanbarthol. Bydd y broses yn cael ei rheoli a'i gweithredu ar y cyd gan y pedwar consortiwm mewn partneriaeth gydag arweinyddion ysgolion a bydd arbenigwyr pwnc yn chwarae rhan allweddol yn broses wirio. Mewn datganiad Gweinidogol ar 12 Mai, nodwyd â hyder mai'r Bartneriaeth sydd yn y lle gorau i ddarparu proses drylwyr a chost effeithiol a fydd yn y pen draw yn arwain at ddibynadwyedd cynyddol a mwy o hyder yn y broses Asesiadau Athrawon.

Trefniadau

Ffocws allweddol y gwaith bydd cryfhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon drwy adborth o ansawdd uchel i athrawon a phenaethiaid, ac ailadeiladu hyder yn y system.

Bydd tîm o wirwyr ym mhob consortiwm yn cael eu hyfforddi ar y cyd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. O fewn pob tîm gwirio, bydd gwiriwr arweiniol yn cydlynu gweithgareddau a chydweithio â gwiriwyr arweiniol yn gweithio ar draws Cymru i sicrhau ansawdd y broses. Ni fydd unrhyw dîm yn gweithio o fewn eu consortiwm eu hunain.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, bydd gwirio cynnwys ysgolion a dargedwyd a rhai a ddewiswyd ar hap. Yn 2015, bydd 10% o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan ym mhob rhanbarth, gan gynyddu i 20% yn 2017.

Byddwn yn cysylltu ag ysgolion a ddewiswyd i gymryd rhan yn y broses wirio genedlaethol eleni yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin.

Cyflwyno data terfynol ar gyfer Asesiadau Athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r broses gosod targedau ar gyfer 2014/15.

Mae hon yn flwyddyn hollbwysig i ysgolion, Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru, ac mae angen i bob un ohonom sefydlu mwy o hyder yn dibynadwyedd asesiadau athrawon. Mae angen i gyd-weithwyr addysg proffesiynol, rhieni a'r cyfryngau gael hyder cynyddol mewn barn broffesiynol athrawon wrth barhau i ganolbwyntio ar effaith asesiadau athrawon ar gyflawniad a chynnydd plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno bod ysgolion yn craffu'n drylwyr ar lefelau'r asesiadau a wneir eleni ar gyfer yr holl ddisgyblion. Sylweddolir bod llawer ohonoch eisoes yn cadarnhau'r data ar gyfer 2014/15 ond byddwn yn eich annog i ddefnyddio eleni fel cyfle i adolygu sut y mae penderfyniadau ar asesu yn cael eu gwneud a sicrwydd eu hansawdd. Mae posibilrwydd y gallai hyn arwain at lefelau sy'n is na'r targedau a osodwyd ar gyfer 2015 a byddwn yn gweithio gydag Estyn i'w gwneud yn ymwybodol o'r dull sy'n cael ei weithredu ar draws pob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol.


Wrth sicrhau ansawdd a thrylwyrredd ar y lefel uchel hon, yr ydym yn disgwyl y bydd data'r ysgolion, data'r Awdurdodau Lleol a data rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer 2014/15 yn gosod gwaelodlin newydd a mwy cywir ar gyfer monitro a gwerthuso parhaus o fewn a thu allan i'r proffesiwn.

Os hoffech drafod y mater hwn, cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Her.

Yn gywir,



Sandra Aspinall
Cyfarwyddwr y prosiect
Sicrhau Partneriaeth Asesiadau Athrawon



Steve Davies
Rheolwr Gyfarwyddwr
EAS



Betsan O'Connor
Rheolwr Gyfarwyddwr
ERW



Huw Foster-Evans
Rheolwr Gyfarwyddwr
GWE



Hannah Woodhouse
Gwasanaeth Addysg
ar y Cyd Consortiwm
Canolbarth y De